

MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU



GRŴP EFFAITH AC YMATEB
DYDD IAU 15fed HYDREF, 2020
'ZOOM' 8.00yh

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Davies **IS-GADEIRYDD:** Miss Caryl Haf

PRESENNOL: Katie Davies, (Cadeirydd CFFI Cymru); Caryl Haf, (Is-Gadeirydd CFFI Cymru); Mared Esyllt, (Aelod Hŷn y Flwyddyn); Katie Court, (Cadeirydd Is-bwyllgor Cystadlaethau); Niall Evans, (Cadeirydd Is-bwyllgor Rhyngwladol); Clare James, (Cadeirydd Is-bwyllgor Materion Gwledig) ac Aled Thomas, (Cadeirydd Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata).

HEFYD YN BRESENNOL: Nia Lloyd (Cyfarwyddwr CFFI Cymru).

EY/01/2021

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Wrth agor y cyfarfod, croesawodd Katie Davies yr holl aelodau i gyfarfod Argyfwng cyntaf y tim newydd o swyddogion CFFI.

Cafodd manylion y cyfarfodydd a gafodd eu mynychu dros y mis diwethaf eu uchelbwyntio i'r aelodau drwy Zoom, gyda amser i iddynt gael gofyn cwestiynau ynglyn ag unrhyw un o'r cyfarfodydd.

I gydnabod diwrnod 'Shw'mae, Su'mae' cafodd yr aelodau i gyd eu hannog i rannu manylion y diwrnod drwy lwyfannau eu cyfryngau cymdeithasol.

Yn olaf, cafodd yr aelodau i gyd eu hannog i gymryd rhan llawn a gweithgar yn y trafodaethau.

EY/02/2021

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Kathryn Jones.

EY/03/2021

DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

Nododd y Cadeirydd ei fod yn gyfrifoldeb ar bob aelod o Grwp Effaith ac Ymateb i nodi unrhyw ddiddordeb personol neu fusnes a fydd ganddynt mewn unrhyw item agenda yn cael ei drafod, gyda chyfle i wneud hynny un ai ar ddechrau'r cyfarfod neu ar ddechrau trafod y pwynt.

EY/04/2021

COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhalwyd ar 10fed Medi 2020, wedi'u cylchredeg, eu cadarnhau fel record wir a chywir.

Cynigydd: Mared Esyllt, Aelod Hŷn y Flwyddyn

Eilydd: Aled Thomas, Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata

EY/05/2021

PWYNTIAU GWEITHRED A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw fater yn codi at sylw'r pwyllgor.

EY/06/2021

GOHEBIAETH

Ni chafodd unrhyw ohebiaeth ei gyflwyno at sylw'r pwyllgor.

EY/07/2021

I DDERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU

a) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas

Cafodd cyfarfod o is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata ei gynnal ar 29ain Medi ac fe gafodd Aled Thomas a Caryl Hughes eu llongyfarch gan Katie Davies am gael eu ail-ethol i'r flwyddyn i ddod.

Nododd Aled y pwyntiau canlynol a gafodd eu trafod gan yr is-bwyllgor:

- Mae canllawiau drafft ynglyn a brandio wedi cael eu rhoi at eu gilydd ac fe fyddant yn awr yn cael eu cwblhau.
- 'Roedd gwaith yn mynd ymlaen ynglyn a chronfa Ymddiriedolaeth Elusennol UFC Gydfuddiannol. Fe fydd cyfarfod arall gyda swyddogion is-bwyllgor Materion Gwledig yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.
- 'Roedd trafodaethau wedi cymryd lle ynglyn a pha waith y dymuna'r pwyllgor roi i'r swyddog Marchnata a Chyfathrebu i ganolbwyntio arno a chytunwyd i weithio ar adrannau yn cynnwys: codi proffeil y mudiad gyda rhaglenni fel Heno a 'Farming Today'; i wella arddull a chynnwys gwefan y mudiad; datblygu gwaith ynglyn a phodlediad, blogiau a vlogiau yn ogystal a hyrwyddo digwyddiadau rhithiol.
- Cafwyd trafodaeth bellach ynglyn a sut allai y mudiad gefnogi clybiau yn ystod cyfyngiadau Covid-19, gyda chytuno i ffurfio partneriaethau gyda chyfundrefnau eraill a fyddai efallai yn gallu cynnig cyflëoedd.
- Wrth groesawu Catrin James fel y Swyddog newydd Datblygu'r Iaith Gymraeg i'r cyfarfod cafwyd trafodaeth ynglyn a'r gwaith sydd i'w wneud i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru.
- Rhoddwyd ystyriaeth i les aelodau ac fe etholwyd Marek Jones o Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru fel arbenigwr.

Trafodaeth a chytundeb:

Cafodd y pwyntiau i gyd eu nodi a'u cymeradwyo gan Effaith ac Ymateb.

b) Cystadlaethau – Katie Court

Cyn troi at y cadeirydd, nododd Katie Davies fod dau gyfarfod o'r is-bwyllgor wedi cael eu cynnal ers y cyfarfod diwethaf o Effaith ac Ymateb. Llongyfarchwyd Katie Court ar ei hetholiad fel cadeirydd ac fe eglurwyd y sefyllfa ynglyn a swydd yr is-gadeirydd. 'Roedd Erica Swan wedi cynnig sefyll fel is-gadeirydd am y tro gan na chafodd aelod ei ethol yn y cyfarfod diwethaf. Cytunodd Effaith ac Ymateb y dylai'r swydd gael ei hysbysebu i'r siroedd unwaith eto ac i drafodaeth bellach ac etholiad i gymryd lle yn y cyfarfod nesaf.

- Adroddodd Katie Court fod cystadlaethau'r Ffair Aeaf wedi eu trafod a'u cytuno yn y cyntaf o'r ddau gyfarfod, gyda'r aelodau yn cytuno i weithio gyda Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru unwaith eto.
- Fe fydd cystadlaethau'r Ffair Aeaf yn cynnwys tair adran carcass ynghyd a wyn byw gyda'r cystadlaethau i gyd yn cymryd lle drwy Zoom.
- Mae coginio, celf a gosod gwrychoedd hefyd wedi cael eu cynnwys yn rhaglen y Ffair Aeaf rhithiol.

- Yn yr ail gyfarfod, fe gymeradwyodd y pwyllgor gystadlaethau'r Ffair Aeaf yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda ffederasiynau sirol.
- 'Roedd yr is-bwyllgor wedi bwriadu cynnal Eisteddfod rhithiol ym mis Chwefror a fyddai'n cynnig cyflëoedd eang yn cynnwys cystadlaethau ar lwyfan, gwaith cartref a chelf.
- Nodwyd fod yr aelodau yn arbennig o gysylltiedig ac yn optimistaidd ac yn gwneud y gorau o'r amser hyn i ystyried syniadau newydd a chyfnewidiadol i'r rhaglen.

Trafodaeth a Chytundeb:

Awgrymodd Clare James gan fyddai'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yn rhithiol, a fyddai yn creu cyfle i annogi rhagor o ddysgwyr Cymraeg i gymryd rhan fwy gweithgar yn y cystadlaethau? Nodwyd fod trafodaeth eisioes wedi ei chynnal ynglyn a'r mater yma ac fe fydd cystadlaethau yn cael eu cynnwys yn y rhaglen i annogi fwy o aelodau i gymryd rhan yn yr Eisteddfod.

Yn dilyn ymholiadau a godwyd gan ffederasiynau sirol, cytunwyd i gael gwared o'r adran ddsbarthiad yn y barnu carcass y flwyddyn yma.

Nodwyd hefyd y bydd trafodaethau gyda Radio Cymru a hefyd 'Literature Wales' yn cymryd lle i ystyried os gallant weithio mewn partneriaeth gyda'r mudiad ynglyn a'r Eisteddfod rithiol.

c) Cyllid a Rheoli – Kathryn Jones

Yn absenoldeb Kathryn Jones, nododd y Cadeirydd nad pedd cyfarfod wedi'i gynnal ers cyfarfod diwethafgrwp Effaith ac Ymateb. Cafodd yr aelodau eu hyrwyddo fod tymor cadeirydd yr is-bwyllgor am ddwy mlynedd, felly 'does dim ond angen ethol aelodau cyf-ethol yng nghyfarfod nesaf o'r is-bwyllgor.

Trafodaeth a cytundeb:

Ni chodwyd unrhyw fater arall ynglyn a'r is-bwyllgor.

d) Materion Gwledig – Clare James

Llongyfarchwyd Clare James a Wil Jones gan Katie Davies ar eu etholiad fel cadeirydd ac is-gadeirydd yr is-bwyllgor.

Adroddodd Clare ar y pwyntiau canlynol ynglyn a gwaith yr is-bwyllgor:

- Cafodd Non Williams ac Aled Jones eu cydnabod am eu gwaith ar ran y pwyllgor.
- Fe gynhelir cyfarfod ar nos Lun ganlynol i ystyried ffermio cynaliadwy ac ymgynghoriad ein tir, gyda ymateb i gael ei ffurfio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae FUW a NFU wedi cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod er mwyn cefnogi'r gwaith.
- Mae cytundeb wedi cael ei gyrraedd gyda Quad Bikes Wales ac fe gaiff unwaith eto feic Honda ei gynnig i enillydd y gystadlaeth rhithiol.
- Fe fydd cynhadledd rhithiol Materion Gwledig yn cael ei gynnal ym mis Ionawr ar y thema 'I Ysbrydoli'.
- Mewn blwyddyn normal fe fyddai is-bwyllgor Materion Gwledig yn gwesteio taith astudio. Gan na fydd y daith yn cymryd lle y flwyddyn yma mae'r pwyllgor wedi cytuno i uchelbwyntio drwy gyfrwng cymdeithasol beth sydd wedi cael ei ddysgu drwy'r teithiau blaenorol.
- Mae gwaith yn parhau gyda phrosiect Menter Moch, Cynllun Wyn CFFI Cymru a Gwobr Gild Lifrai Cymru'

Yn cloi'r adroddiad, nododd Clare natur blaengar y pwyllgor ac ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda phawb dros y deuddeg mis nesaf.

Trafodaeth a chytundeb:

Cafodd y pwyntiau i gyd eu nodi a'u cyfarwyddo gan yr aelodau a oedd yn bresennol.

e) Rhyngwladol – Niall Evans

Cafodd Niall Evans a Nerys Lewis eu llongyfarch gan Katie Davies ar eu hetholiad fel swyddogion ar yr is-bwyllgor Rhyngwladol dros y deuddeg mis nesaf a nodwyd fod dau gyfarfod wedi cael eu cynnal yn y ddau fis diwethaf.

Adroddodd Niall ar waith yr is-bwyllgor, yn cynnwys:

- Mae rhaglen deithio rhyngwladol 2021 yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ac fe gytunwyd i ryddhau'r rhaglen ar 9fed Tachwedd, gyda chyfweliadau yn cymryd lle ar y penwythnos 12fed Rhagfyr.
- Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi trafferthion ynglyn a chyflëoedd teithio ar hyn o bryd ond yn ystyried beth all ei gynnig o safbwynt genedlaethol a hefyd rhyngwladol.
- Mae'r teithiau sy'n cael eu ystyried ar hyn o bryd yn cynnwys: Ynysoedd Orkney, Route 66 ac Iwerddon.
- I uchelbwyntio cyfleoedd 2021, mae ymgyrch 'Dydd Iau Taflu 'Nol' a 'Teithio mewn Tri' yn cael eu cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol CFFI Cymru.
- Mae gwahoddiad wedi cael ei ddanfôn at bwyllgor CFFI i aelod gael ymuno a'r is-bwyllgor fel arbenigwr.
- Fe fydd prosiect yn cael ei ddatblygu i uchelbwyntio y cyfleoedd sydd i'w cael drwy gyfnewidiadau clybiau ac fe fydd adran un-bwrpas yn cael ei greu ar y wefan yn y dyfodol agos.
- Mae cynnig i CFFI Cymru gael gwesteio Seminar Hydref 2022 wedi cael ei ddanfôn i Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop.

Dymunwyd yn dda i Niall yn yr etholiadau i ddod am y swydd o is-gadeirydd Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop.

Trafodaethau a chytundeb:

Cafwyd llawer o drafodi ynglyn a chais gan Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop i CFFI Cymru i benodi cynrychiolydd olynol Grŵp 1 o flaen y bleidlais i Niall Evans ddod yn is-gadeirydd. Er bod yr aelodau o'r farn y byddai Niall yn cael ei ethol, teimlwyd y dylai fod cyfnod i ganiatáu etholiad yn dilyn y Cynulliad Cyffredinol. Nodwyd hefyd y gallai olynnydd ddim ond cymryd drosodd yng nghyfarfod y Cynulliad.

Yn y cyfamser byddai'r aelodaeth fwy eang yn cael y cyfle i sefyll gyda Niall yn cael ei ethol.

Pwynt Gweithrediad 1:

Cytunwyd y byddai Niall yn siarad gyda Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop i ddarganfod os fyddant yn caniatáu cyfnod o etholiad yn dilyn y Cynulliad Cyffredinol. Os na fydd y mater yn symud ymlaen, dylai lythyr gael ei ddanfôn gan CFFI Cymru yn gofyn i'r broses gael ei newid er mwyn i'r gwledydd gael mwy o amser i ethol yn dilyn y Cynulliad.

f) Fforwm Ieuenctid – Elin Rattray

Yn absenoldeb Elin Rattray nodwyd fod cyfarfod o'r Fforwm Ieuenctid wedi cymryd lle ar 30ain Medi. Yn yhstod y cyfarfod, etholwyd Elin fel Cadeirydd a Carys Heart o Sir Benfro fel Is-gadeirydd.

Fe fydd noson gweithgaredd Fforwm Ieuenctid yn cymryd lle ar 21ain Hydref.

Trafodaeth a chytundeb:

Ni godwyd unrhyw fater arall ynglyn a'r is-bwyllgor.

g) Personel a Thâl – Katie Davies

Cafodd aelodau eu cyfarwyddo fod cyfarfod o'r is-bwyllgor wedi cymryd lle ar 23in Med i derfynu trefniadau apwyntiadau Catrin James a Teleri Thomas. Fe gafodd strwythur presennol y staff ei uchelbwyntio fel a ganlyn:

Nia Lloyd - llawn amser

Sian Thomas – pedwar diwrnod yr wythnos

Claire Powell - pedwar diwrnod yr wythnos

Catrin James – llawn amser

Teleri Thomas – llawn amser

Megan Jones - dau ddiwrnod yr wythnos.

Trafodaeth a chytundeb:

Ni godwyd unrhyw fater arall ynglyn a'r is-bwyllgor.

Wrth gloi'r trafodaethau o'r is-bwyllgorau, fe gafodd yr adroddiadau eu mabwysiadu gan yr aelodau'n bresennol.

Cynigydd: Katie Court

Eilydd: Marek Esyllt

EY/08/2021**POLISIŌU PREIFATRWYDD A DIOGELU DATA**

Gan eu bod eisioes wedi'u llwytho i fyny i'r wefan i'w ystyried, cafodd pwysigrwydd y dogfennau i'r mudiad ei nodi. Cafodd yr aelodau eu diweddarau fod Ametros, Ymgynghorwyr RDDC FfCCFFI, wedi cynorthwyo gyda ffurfio'r polisiau.

Fe gafodd mabwysiad y polisiau Preifatrwydd a Diogelu Data i CFFI Cymru ei gymeradwyo gan yr aelodau.

Pwynt Gweithred 2:

Y ddau bolisi i'w cyfieithu ac eu llwytho i fyny i wefan CFFI Cymru, a hefyd eu cylchredeg i'r holl ffederasiynau sirol yng Nghymru.

Cytunodd yr aelodau y dylai polisiau Cyfartaledd a pholisi Iaith Gymraeg CFFI Cymru gael eu ystyried nesaf.

Er mwyn sicrhau fod y polisiau i gyd yn cael eu archwilio'n gywir ac eu bod yn berthnasol i'r clybiau, siroedd a Chymru, cytunwyd i ffurfio grŵp gwaith gyda'r unig bwrpas i ystyried polisiau. Cytunwyd y byddai'r grŵp yma yn cynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd y mudiad ac hefyd dri is-lywydd anrhydeddus gyda diddordeb mewn polisiau. Ble mae'n bosibl cytunwyd i gynnwys o leiaf un is-lywydd gyda phrofiad fel cynghorwr polisi neu gyda chefnidir cyfreithiol.

Cytunwyd hefyd i gynnwys gyn is-lywydd y Cyngor o achos eu dealltwriaeth o'r mudiad a dymuniadau'r aelodau.

Fe fyddai'r polisiau i gyd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth derfynol gan gynrychiolwyr yr aelodau.

Pwynt Gweithred 3:

Is-lywyddion anrhydeddus I gael eu penodi yn eu cyfarfod ar 1af Tachwedd a ble mae'n bosibl dylid cael crychiolaeth ar draws y siroedd, h.y. un o'r Gogledd, un o'r Canolbarth ac un o'r De.

Pwynt Gweithred 4:

Amodau gorchwyl i'w ffurfio i gynorthwyo'r grŵp gwaith.

EY/09/2021

FFORMAT Y CYNGOR

Cafodd aelodau eu diweddarau fod y siroedd, ers y cyfarfod diwethaf, wedi uchelbwyntio eu dymuniad i ail-gynnull y Cyngor gyda mwy nag un cynrychiolydd o bob sir yn bresennol.

Er mwyn symud ymlaen gyda trafodaethau gofynwyd i'r siroedd i gyd i ddanfôn eu syniadau ynglyn a chyfansoddiad y Cyngor a pha mor aml y dylid cael cyfarfodydd. Rhanwyd y sgrin gyda phawb yn bresennol yn uchelbwyntio meddyliau deg sir a oedd wedi ymateb i'r cais.

Ar ol trafodaeth, cytunwyd i gynnig y tri opsiwn canlynol i'r aelodau i gyd cael pleidleisio arnynt:

Opsiwn 1

Cyngor Argyfwng (Effaith ac Ymateb) i barhau mewn lle.

Opsiwn 2

Tri cynrychiolydd o bob sir i ymuno gyda aelodau penodedig eraill o'r Cyngor, gyda chyfarfodydd i'w cynnal bob wyth wythnos

Opsiwn 3

Dau gynrychiolydd o bob sir i ymuno gyda aelodau penodedig eraill o'r Cyngor, gyda chyfarfodydd i'w cynnal bob wyth wythnos.

Yn ychwanegol i'r opsiynau hyn nodwyd y dylai llinell gael ei chynnwys yn nodi y gallai'r Cyngor gael ei alw mewn 48 awr os a phryd y byddai angen am hyn.

Teimlwyd ei fod yn fwy addas i gynnal y Cyngor ar noson yn yr wythnos gyda amser dechrau am 6.30 yh.

Cytunwyd y byddai dyddiad nesaf y Cyngor ar ddydd Iau 26ain Tachwedd gyda unrhyw gwestiynau gan gynrychiolwyr yn y cyfamser i'w mynegi i ganolfan CFFI Cymru.

Pwynt Gweithredu 4:

Cynnig yn cynnwys y tri opsiwn i'w gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor ar ddydd Llun 19eg Hydref.

EY/10/2021

DIWEDDARIAD STAFF

Diogelu

Cafodd aelodau eu cyfarwyddo fod gweithdy diogelu wedi ei draddodi i aelodau'r gymdeithas staff. Fe gaiff hwn hefyd ei draddodi i Fforwm y Cadeiryddion. Fe fydd rhagor o weithdai yn cael eu datblygu dros y misoedd i ddod.

Canva

Er mwyn cefnogi'r gwaith o farchnata'r mudiad, cytunodd yr aelodau i brynu Canva pro. i gynorthwyo gyda gwaith dylunio'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.

Maniffesto & Cynllunio Strategol

Cytunodd holl aelodau'r grŵp i fod yn rhan o weithdy'r maniffesto a chynllunio strategol gyda gwahoddiad i'w ymestyn i aelodau o'r 12 ffederasiwn sirol.

Pwynt Gweithredu 5:

Copi o'r maniffesto blaenorol a gafodd ei gynhyrchu gan CFFI Cymru i'w gylchredeg i holl aelodau'r grŵp.

Iaith y Pridd & Cyswllt Ffermio

Nodwyd fod sgysiau wedi dechrau cymryd lle gyda Menter a Busnes ynglyn ac adroddiad Iaith y Pridd, er mwyn sicrhau fod yr argymhellion a nodwyd yn cael eu symud ymlaen.

Cafwyd trafodaethau hefyd gyda Cyswllt Ffermio ynglyn a chymhwyster a'r anhawster mae llawer o aelodau CFFI yn cael wrth geisio defnyddio'r hyfforddiant drwy'r rhaglen.

Apêl y Ffair Aeaf

Gofynwyd `r aelodau ystyried y Ffair Aeaf rhithiol sydd ar y trothwy a'r cyfle y gallai roi i'r mudiad godi amwybyddiaeth a chefnogaeth i unrhyw ymgyrch. Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor ddanfon eu syniadau i ganolfan CFFI mor gynted a phosibl.

Yn yr amser anodd yma, awgrymodd Clare James tybed a allai CFFI Cymru ddanfon cardiau Nadolig i'r aelodau i gyd ac yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod yma?

Dosbarthiadau Meistr

Cafodd y cysyniad o ddosbarthiadau meistr ei nodi ac fe gytunwyd i symud ymlaen gyda'r gwaith yma o flaen cystadlaethau'r Ffair Aeaf.

Sioe ar Daith Busnes Cymru

Bydd CFFI Cymru yn cael eu cynrychioli yn y sioe ar daith Busnes Cymru a fyddai'n rhoi cyfle rhwydweithio rhithiol i'r mudiad.

Clwb Llyfrau

Yn dilyn trafodaeth a gafodd ei arwain gan Catrin James gyda Chyngor Llyfrau Cymraeg, cyfarwyddwyd yr aelodau fod Catrin yn gobeithio sefydlu ysgogiad aelodaeth i aelodau CFFI. Cytunodd y pwyllgor hefyd i sefydlu clwb llyfrau rhithiol, yn cynnig cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a hefyd i ddysgwyr Cymraeg.

Cyfarfodydd

Mae cyfarfodydd eraill wedi eu cynllunio yn y dyfodol agos yn cynnwys Radio Cymru a S4C.

Calendr

Yn dilyn awgrymiad gan Caryl Haf, cytunodd aelodau i lansio calendr i aelodau CFFI allu ei brynu cyn y Nadolig 2020. Gofynnir i'r siroedd i ddanfon un llun a syniadau o noddwyr a fyddai a diddordeb mewn cefnogi'r brosiect.

Cytunwyd y byddai unrhyw elw o'r gwerthiant yn cael ei rannu 50/50 rhwng y siroedd a CFFI Cymru. Fe fydd yn bosibl rhoi system mewn lle I alluogi'r cwsmeriaid i nodi sir o'u dewis i roddi eu arian.

Pwynt Gweithredu 6:

Aelodau i feddwl am themáu i'r calendr a syniadau i'w danfon ddim hwyrach na dydd Llun 19eg Hydref, er mwyn cael symud ymlaen gyda'r gwaith yma.

Ni godwyd rhagor o gwestiynau gan yr aelodau a oedd yn bresennol.

EY/11/2021**EITEMAU AGENDA ITEMS & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Ni chafwyd eitemau agenda i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf ac fe gytunwyd i gynnal y cyfarfod ar ddydd Iau 26in Tachwedd.

EY/12/2021**UNRHYW FUSNES ARALL****Merched mewn Amaeth**

Wrth gau'r cyfarfod cymerodd Katie Davies lun i gydnabyddu diwrnod 'Merched mewn Amaeth' sy'n cael ei ddatlu ar gyfryngau cymdeithasol.

Datganwyd y cyfarfod yng nghau am 10.00yh.

Llofnod: _____**Dyddiad:** _____**CRYNODEB O WEITHREDIADAU:**

| Action | Comments |
|--|----------|
| <p>Pwynt 1: Cytunwyd y byddai Niall Evans yn siarad gyda Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop i ddarganfod a fyddant yn fodlon cael cyfnod o etholiad yn dilyn y Cynulliad Cyffredin. Os na allwn symud ymlaen ynglyn a'r mater, mae llythyr i'w ddanfod gan CFFI Cymru yn gofyn i'r broses gael ei newid er mwyn i'r gwledydd gael mwy o amser i ethol yn dilyn y Cynulliad.</p> | |
| <p>Pwynt 2 Y ddau bolisi i'w cyfieithu ac eu llwytho i fyny i wefan CFFI Cymru a'u cylchredeg i'r ffederasiynau sirol.</p> | |
| <p>Pwynt 3: Is-lywyddion anrhydeddus i'w penodi yn eu cyfarfod ar 1af Tachwedd a lle'n bosibl dylent fod yn cynrychioli ar draws y siroedd, h.y. un o'r Gogledd, un o'r Canolbarth ac un or De.</p> | |
| <p>Pwynt 4: Cynnig yn cynnwys tri opsiwn i'w gylchredeg i holl aelodau o'r grŵp</p> | |

| | |
|---|--|
| ar ddydd Llun 19eg Hydref. | |
| Pwynt 5: Copi o'r maniffesto blaenorol a gyhyrchwyd gan CFFI Cymru i'w gylchredeg i holl aelodau o'r grŵp. | |
| Pwynt 6: Aelodau i feddwl am themau i'r calendr gyda syniadau i'w danfon ddim hwyrach na dydd Llun 19eg Hydref, er mwyn cael symud ymlaen gyda'r waith. | |